# A Visit to Grandpa's

Mae "A Visit to Grandpa's" yn stori yn y casgliad "A Portrait of the Artist as a Young Dog". Cafodd ei gyhoeddi yn 1940, ac mae'n gasgliad lled- hunangofiannol o storïau byrion sydd wedi'u seilio ar atgofion plentyndod a blynyddoedd cynnar Thomas. Mae'n hawdd ymgysylltu â'r storïau hyn oherwydd maen nhw'n ysgogi atgofion sy'n gyfarwydd iawn i nifer o ddarllenwyr. Mae'r stori wedi'i lleoli ym mhentref Llansteffan, ac yn dangos pa mor hoff oedd o'i ymweliadau â Gorllewin Cymru yn ystod y gwyliau. Mae'r cymeriadau wedi'u cyflwyno i'r darllenydd ond heb gael eu datblygu'n llawn fel y bydden nhw mewn nofel. Mae Thomas yn ysgrifennu am y pethau y sylwodd arnyn nhw a'i atgofion yn ystod ei blentyndod ac yn cyflwyno'i hun fel yr un sy'n adrodd y stori. Mae fflachiadau o hiwmor yn y stori ond mae rhannau'n dywyll iawn hefyd ac yn gwneud inni feddwl.

Er ei fod yn trafod sawl aelod o gymuned y pentref, Dylan a Grandpa yw'r prif gymeriadau yn "A Visit to Grandpa's". Nid yw Thomas yn adeiladu'n raddol wrth gyflwyno Grandpa ond yn hytrach mae'r darllenydd yn cael ei wthio'n syth i weld cymaint o 'gymeriad' yw Grandpa o'r dechrau'n deg. Yn ystod ymweliad â'i dad-cu yn ei gartref yn y wlad, mae Dylan yn cael ei ddeffro gan sŵn Tad-cu'n siglo'n wyllt yn ei wely, yn gweiddi ar geffyl dychmygol. Roedd mam Dylan wedi'i rybuddio fod Grandpa yn gwneud pethau fel "lit his pipe under the blankets" ac wedi dweud y dylai "run to his help if [he] smelt smoke in the night", felly mae'n awyddus i fynd i weld bod ei dad-cu'n iawn ar ôl clywed y cyffro.

Pan fydd Dylan yn dweud wrth ei dad-cu am ei ymddygiad yn ystod y nos, mae'n ceisio cuddio'r cyfan drwy ddweud, "Ask no questions...". Mae'n troi'r sefyllfa'n ôl at Dylan ac yn anwybyddu cwestiynau ei ŵyr. Mae gweddill y stori'n cynnwys rhai disgrifiadau hyfryd o fywyd mewn pentref yn nechrau'r ugeinfed ganrif.

Mae'r stori'n llwyddo i bortreadu bachgen ifanc yn dod ar draws cymeriad go iawn am y tro cyntaf. Mae Grandpa'n adnabyddus yn y pentref am fod yn gymeriad ac mae'n amlwg i'r darllenydd ei fod wedi colli ei bwyll. Ar ddiwedd y stori, pan fydd yn rhedeg i ffwrdd, mae bron yn ddisgwyliedig y bydd y cymdogion yn dod o hyd iddo ac yn dod ag ef adref. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at yr ymdeimlad cymunedol mewn pentref bach yng Nghymru.